



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Arolygon gwirio Gwefannau: Cyrff Cyfiawnder a'r Gwasanaethau Tân ac Achub – Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (2016) Rhif 5



Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
2	Methodoleg	2
3	Canfyddiadau	3
4	Tueddiadau	7
5	Casgliad ac argymhellion	9
	Atodiad	10

1 Cyflwyniad

- 1.1 Eleni, rydym wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer monitro a rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'u dyletswyddau iaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau'r Cynllun Strategol a'r Deilliannau Rheoleiddio a gyhoeddwyd yn 2024-2025.
- 1.2 Roeddem yn awyddus i ddatblygu dulliau monitro a hyrwyddo a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfiaeth sefydliadau. Penderfynwyd cynllunio arolygon gwirio i'w cynnal yn chwarterol, gyda chanlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r sefydliadau unigol o fewn yr un chwarter.
- 1.3 Un o fanteision allweddol y dull hwn o fonitro yw bod sefydliadau'n cael gwybod am unrhyw faterion cydymffurfiaeth mewn modd amserol drwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle iddynt weithredu atebion priodol yn brydlon.
- 1.4 Mae gwefannau sefydliadau yn brif ddull cyfathrebu ac yn elfen greiddiol o brofiad y defnyddiwr wrth ymgysylltu â sefydliadau cyhoeddus. O ystyried y cynnydd parhaus yn y defnydd o'r we a dyfeisiau symudol i gyrchu gwybodaeth, mae'n hanfodol bod y ddarpariaeth ar-lein yn hygyrch, yn gyson ac ar gael yn llawn yn y Gymraeg, yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Er bod arolygon blaenorol wedi dangos gwelliant yn y ddarpariaeth, mae angen parhau i gryfhau cydymffurfiaeth, yn enwedig wrth ddiweddarau cynnwys a sicrhau bod dolenni'n gywir ac yn weithredol, er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd a chywirdeb y gwasanaethau a ddarperir.
- 1.5 Dros y pedair blynedd diwethaf, mae arolygon gwirio gwefannau ar gyrff sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Rhif 5 wedi dangos tuedd gyffredinol o welliant o ran cydymffurfiaeth â'r safonau. Serch hynny, mae arolygon blaenorol wedi tynnu sylw at nifer o feysydd sy'n parhau i beri her, gan gynnwys cywirdeb a gweithrediad dolenni i gynnwys Cymraeg, yn ogystal â chysondeb gwybodaeth rhwng y tudalennau Cymraeg a Saesneg. Yn y cyd-destun hwn, mae'r gwaith hwn yn gyfle i fonitro ac asesu cyrhaeddiad a nodi unrhyw wendidau neu gamau pellach sydd eu hangen i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion.
- 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygon gwirio a gynhaliwyd â sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 5, ac yn amlinellu argymhellion i'w hystyried er mwyn cefnogi a chryfhau cydymffurfiaeth o fewn eich sefydliad.
- 1.7 Yn ogystal â'r adroddiad hwn, bydd canfyddiadau unigol yr arolygon yn cael eu trafod gyda phob sefydliad a fu'n rhan o'r gwaith, er mwyn darparu adborth wedi'i deilwra a chefnogi camau gwella penodol.
- 1.8 Er inni gynnal yr arolwg gyda sampl o'r sefydliadau yn unig, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn, ynghyd â'r argymhellion a gyflwynir, yn berthnasol i'r holl sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 5.
- 1.9 Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad a rhannu'r canfyddiadau gyda'r sefydliadau yn unigol, disgwylir i bob sefydliad adrodd i'r Comisiynydd, o fewn tri mis, ar y camau sydd wedi eu cymryd i ymateb i'r argymhellion hyn.

2 Methodoleg

- 2.1 Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 yn cynnwys safonau sy'n ymwneud â defnydd sefydliadau o'u gwefannau, yn ogystal â deunyddiau hyrwyddo ac elfennau o hunaniaeth gorfforaethol.
- 2.2 Canolbwyntiodd yr arolygon hyn ar gydymffurfiaeth â'r safonau sy'n benodol berthnasol i wefannau, sef safonau 49, 50, 52 a 53. Yn ogystal, cafodd Safon 35 (cyhoeddusrwydd a hysbysebu) a Safon 80 (hunaniaeth gorfforaethol) eu hystyried fel rhan o'r gwaith.
- 2.3 Mae safonau 49 a 50 yn cyfeirio'n benodol at ddefnydd sefydliadau o'u gwefannau:
- “Safon 49 - Rhaid ichi sicrhau—*
- (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,*
 - (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac*
 - (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.*
- “Safon 50 - Rhaid ichi sicrhau—*
- (a) bod testun hafan eich gwefan ar gael yn Gymraeg,*
 - (b) bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan eich gwefan (neu, pan fo'n berthnasol, bod eich hafan Gymraeg) yn gweithredu'n llawn, ac*
 - (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan eich gwefan.*
- 2.4 Mae Safon 52 hefyd yn nodi:
- “Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.”*
- 2.5 Mae safon 56 yn nodi *'Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg'*.
- 2.6 Er nad oes Cod Ymarfer penodol yn gysylltiedig â Rheoliadau Rhif 5, defnyddir y cyngor a'r eglurhad am y safonau fel nodir yng Nghod Ymarfer Rheoliadau Rhif 1 fel sail briodol i ddehongli a nodi gofynion y safonau perthnasol.
- 2.7 O dan y Cod Ymarfer, nodir nad oes rhaid i sefydliad ailadrodd datganiad geiriol ar bob tudalen Saesneg i nodi bod cynnwys Cymraeg ar gael. Fodd bynnag, rhaid i'r trefniant a ddefnyddir fod yn glir ac yn effeithiol, megis drwy ddarparu botwm “Cymraeg” mewn safle amlwg sy'n llywio'r defnyddiwr yn uniongyrchol at y dudalen Gymraeg gyfatebol. Nid yw arddangos symbolau neu faneri yn unig yn bodloni'r gofyniad hwn.

2.8 Disgwylir i'r gofynion hyn gael eu bodloni ar bob tudalen berthnasol ar wefan y sefydliad, gan gynnwys yr hafan, tudalennau newydd, a thudalennau sydd wedi'u diwygio.

2.9 Mae safon 80 yn nodi:

Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2.10 Mae Safon 80 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio, diwygio neu gyflwyno ei hunaniaeth gorfforaethol, sy'n cynnwys enwau, logos, brandio, sloganau ac elfennau gweledol ar ddeunyddiau fel dogfennau, arwyddion, cerbydau a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Dylai'r Gymraeg fod o'r un safon, ansawdd, amlygrwydd, maint, golwg ac amseriad â'r Saesneg. Nid yw'r safon yn berthnasol pan fo deddfiad yn mynnu defnyddio enw cyfreithiol penodol nad oes modd ei gyfieithu.

2.11 Gall corff ddefnyddio deunydd dwyieithog neu fersiynau ar wahân, ond pan fo deunydd ar wahân rhaid i hunaniaeth Gymraeg ymddangos ar y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg, i sicrhau na chaiff y Gymraeg unrhyw driniaeth llai ffafriol.

2.12 Yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd 2025, arolygwyd gwefannau naw sefydliad sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 5.

2.13 Gwiriwyd 10 tudalen ar wefan pob sefydliad, gan gynnwys y dudalen hafan, gan asesu i ba raddau:

- roedd yr hafan a'r tudalennau perthnasol ar gael yn Gymraeg
- cydymffurfiodd y tudalennau â'r safonau perthnasol i wefannau
- roedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3 Canfyddiadau

Canlyniadau'r Gwaith Arolygu ar Gydymffurfiaeth Gwefannau

3.1 Dyma grynodedb o'r canlyniadau:

- Canran y tudalennau ar gael yn Gymraeg: 98%
- Canran y tudalennau oedd yn cydymffurfio â safon 49: 92%
- Canran y tudalennau oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg: 9%
- Cydymffurfiaeth â Safon 52: 100%
- Cydymffurfiaeth â Safon 53: 95% - Nodwyd bod botymau uniaith Saesneg yn ymddangos ar dudalennau Cymraeg un sefydliad.


Dadansoddiad o'r Canfyddiadau

3.2 Mae canlyniadau'r arolygon yn nodi bod 98% o'r tudalennau ar gael yn Gymraeg, gyda 2% o'r tudalennau ddim ar gael yn Gymraeg.




3.3 O'r tudalennau a wiriwyd fel rhan o'r arolwg, canfuwyd bod 9% o'r tudalennau yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nodwyd enghreifftiau fel:


- Dolenni ar dudalennau Cymraeg yn cyfeirio at dudalennau Saesneg;
- Teitlau neu destun Saesneg yn ymddangos ar dudalennau Cymraeg lle dylai fod cynnwys Cymraeg.




- 3.4 Nodwyd hefyd enghreifftiau lle'r oedd botymau i lawrlwytho dogfennau penodol ar y wefan Gymraeg yn cynnwys testun uniaith Saesneg. Yn ogystal, ar dudalennau un sefydliad, nodwyd bod dewislenni uniaith Saesneg yn ymddangos ar dudalennau Cymraeg, sy'n groes i ofynion penodol y safonau.
- 3.5 Gwelwyd bod 92% o'r tudalennau a wiriwyd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Safon 49. Roedd testun Saesneg ar dudalennau Cymraeg ar 7 (neu 8%) o'r tudalennau a wiriwyd, gan gynnwys dolenni a botymau uniaith Saesneg oedd yn cyrchu at wybodaeth Gymraeg.




- 3.6 Nodwyd bod 100% o'r tudalennau a wiriwyd yn cynnwys dolen neu botwm dewis iaith ac felly yn cydymffurfio â gofynion Safon 52.
- 3.7 Roedd pob un o'r 90 tudalen a wiriwyd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Safon 52, gan fod dolen ar y dudalen Saesneg yn arwain yn uniongyrchol at dudalen Gymraeg gyfatebol y sefydliad.
- 3.8 Nodwyd bod 95% o'r tudalennau a wiriwyd yn cydymffurfio â gofynion safon 53. Roedd 4% o'r tudalennau yn methu cydymffurfio, a 1% yn cydymffurfio'n rhannol. Digwyddodd yr holl achosion o fethu neu gydymffurfio'n rhannol ar wefan un sefydliad yn unig.
- 3.9 Roedd hyn o ganlyniad i fotymau uniaith Saesneg ar dudalennau Cymraeg. Er bod y botymau hyn yn arwain at dudalennau a gwybodaeth Gymraeg, roedd y ffaith bod testun y botwm ei hun yn Saesneg yn tansilio profiad y defnyddiwr ac yn groes i ofynion penodol safon 53. O ganlyniad, dylai sefydliadau wirio'n rheolaidd a sicrhau bod unrhyw ddewislenni a botymau ar eu tudalennau Cymraeg yn cydymffurfio â safon 53, er mwyn sicrhau profiad defnyddiwr cyson a chyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg.



3.10 O safbwynt safon 35, sy'n ymwneud â deunydd cyhoeddusrwydd, dim ond pedair tudalen a nodwyd oedd yn cynnwys deunydd o'r fath ac felly yn berthnasol i'r safon. O'r pedair dudalen hynny, roedd dwy yn cydymffurfio yn rhannol, tra nad oedd y ddwy arall yn cydymffurfio o gwbl. O ganlyniad, ni chafwyd unrhyw enghraifft o ddeunydd cyhoeddusrwydd a oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion.



3.10 Gyda golwg ar ofynion safon 80, sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol, roedd 98% o'r tudalennau perthnasol yn cydymffurfio. Fodd bynnag, nid oedd dwy dudalen (2%) yn cydymffurfio'n llawn. Yn yr achosion hyn, gwelwyd enghreifftiau o enwau a logos uniaith Saesneg, neu logos lle'r oedd y Saesneg yn cael ei osod uwchben y Gymraeg, yn ogystal â sefyllfaoedd lle'r oedd ffont y logo Saesneg yn fwy amlwg na'r fersiwn Gymraeg.



4 Tueddiadau

Argaeledd y Gymraeg

4.1 Mae'r ffaith bod 98% o'r tudalennau a wiriwyd ar gael yn Gymraeg yn galonogol ac yn dangos ymrwymiad cryf gan y sefydliadau i ddarparu cynnwys Cymraeg ar eu gwefannau. Fodd bynnag, wrth asesu cydymffurfiaeth â safon 49, roedd y ganran yn gostwng i 92%, gan fod y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar 8% o'r tudalennau a wiriwyd. Roedd y methiant hwn yn sgil amryw o ffactorau, gan gynnwys:

- Botymau uniaith Saesneg ar dudalennau Cymraeg, yn enwedig ar gyfer lawrlwytho dogfennau.
- Hidlyddion neu ddewislenni ar rai tudalennau ar gael yn Saesneg yn unig, gan greu profiad anghyson i ddefnyddwyr Cymraeg.

Mae'r enghreifftiau hyn yn awgrymu diffyg ystyriaeth i brofiad defnyddwyr y Gymraeg wrth gynllunio, gan danseilio egwyddorion Safon 49 a 53.

4.2 Er bod canlyniadau eleni yn dangos cynnydd cyffredinol, mae'r canfyddiadau yn ddangos bod gwaith pellach i'w wneud wrth sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau, yn enwedig o ran sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

4.3 Gwelwyd un enghraifft o gorff yn defnyddio enw a logo uniaith Saesneg ar ei wefan, a hynny yn groes i ofynion Safon 80. Er bod y tudalennau perthnasol ar gael yn Gymraeg a bod y dolenni'n arwain at wybodaeth Gymraeg, nid oedd elfennau'r hunaniaeth gorfforaethol, gan gynnwys y logo a'r deunydd cysylltiedig, yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y safon. O ganlyniad, cafodd y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y cyd-destun hwn.

4.4 Roedd y tudalennau Cymraeg yn cyfateb i'r tudalennau Saesneg o ran y wybodaeth a ddarparwyd, gan ddangos bod ymdrech amlwg wedi'i gwneud ers yr arolygon gwefannau

diwethaf i wella'r modd y cyflwynir gwybodaeth yn Gymraeg. Yn ystod arolygon 2024-25, nodwyd gwendidau ymhlith nifer o sefydliadau yn y modd yr oedd defnyddwyr yn gallu cyrchu gwybodaeth bellach, gan gynnwys dogfennau a chynnwys ategol, ar y tudalennau Cymraeg.

- 4.5 Yn yr arolwg presennol, nodwyd bod gwelliant sylweddol wedi'i wneud o ran darparu dolenni i ddogfennau a thudalennau Cymraeg. Roedd hyn yn faes gwan a amlygwyd yn flaenorol, ac mae'n gadarnhaol gweld bod y rhan fwyaf o'r sefydliadau wedi ymateb i'r adborth a roddwyd drwy sicrhau bod dolenni priodol at gynnwys Cymraeg bellach ar waith.
- 4.6 Darparodd y sefydliadau a wiriwyd dudalennau Cymraeg oedd yn cyfateb i'r fersiynau Saesneg, gan wneud hynny'n gydamserol gyda'r fersiwn Saesneg. Ymddengys felly bod nifer o'r sefydliadau bellach gyda threfn mewn lle i sicrhau cydymffurfiaeth o ran y gofynion ieithyddol wrth greu a/neu ddiweddarau gwybodaeth ar y wefan.

Cydymffurfiaeth Sefydliadau â Safonau Penodol

- 4.7 **Safon 35:** Nodwyd methiannau gan ambell sefydliad wrth gyflwyno deunydd cyhoeddusrwydd ar eu gwefannau. Roedd y rhain yn cynnwys hysbysebion a 'pop-ups' uniaith Saesneg ar dudalennau Cymraeg.
- 4.7 **Safon 52:** Roedd 100% o'r tudalennau a wiriwyd yn cynnwys dolen dewis iaith, sy'n gadarnhaol ac yn dangos bod sefydliadau'n sicrhau bod y Gymraeg ar gael ar ei gwefannau.
- 4.8 **Safon 53:** Gwelwyd enghreifftiau o ddewislenni, botymau a hidlyddion uniaith Saesneg ar dudalennau Cymraeg. Er bod yr elfennau hyn yn arwain at dudalennau, dogfennau a gwybodaeth Gymraeg, mae'r defnydd o fotymau uniaith Saesneg ar dudalennau Cymraeg yn tarfu ar brofiad y defnyddiwr ac yn groes i ofynion penodol safon 53. Dylai sefydliadau sicrhau bod iaith y dewislenni, y botymau a'r elfennau llywio eraill yn gyson â iaith y dudalen, fel rhan annatod o'u prosesau gwirio a chynnal gwefannau.

Hunaniaeth Gorfforaethol

- 4.9 Gwelwyd bod 98% o'r tudalennau a wiriwyd yn cydymffurfio â gofynion **Safon 80**. Yn gyffredinol, roedd logos a'r modd y cyflwynwyd hunaniaeth gorfforaethol y sefydliadau dan sylw yn gyson ac yn gywir yn y ddwy iaith.
- 4.10 Fodd bynnag, mewn un achos, nodwyd diffyg cysondeb rhwng y ddwy iaith wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol. Er bod y wefan Gymraeg yn rhoi'r Gymraeg yn amlwg, roedd y logo ar y dudalen Saesneg yn uniaith Saesneg.
- 4.11 Mae angen i bob sefydliad adolygu sut y cyflwynir ei hunaniaeth gorfforaethol ar draws ei wefan gyfan yn sgil canfyddiadau'r gwaith arolygu yma.

Materion Technegol

- 4.12 Mae'r problemau a nodwyd, gan gynnwys y defnydd o fotymau uniaith Saesneg a hidlyddion neu ddewislenni Saesneg yn unig ar dudalennau Cymraeg, yn tynnu sylw at yr angen i roi mwy o sylw i elfennau rhyngweithiol ar wefannau. Mae'r rhain yn elfennau

hanfodol i brofiad y defnyddiwr, ac mae diffyg dwyieithrwydd ynddynt yn creu rhwystrau ymarferol i ddefnyddwyr Cymraeg.

5 Casgliad ac Argymhellion

- 5.1 Mae'r lefel gyffredinol o gydymffurfiaeth yn galonogol. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r arolygon yn dangos bod angen gwelliannau pellach, yn enwedig o ran elfennau gweledol a rhyngwyneb gwefannau. Yn sgil y gwaith gwirio, nodwyd bod diffygion penodol yn parhau a all arwain at brofiad defnyddiwr anghyson ac at drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn rhai cyd-destunau.
- 5.3 Mae'r data'n dangos bod y mwyafrif o sefydliadau'n cydymffurfio â'r safonau craidd. Serch hynny, mae diffygion cyson yn parhau o ran hunaniaeth sefydliadau a hygyrchedd gwybodaeth. Er bod rhai sefydliadau'n dangos arferion da – megis darparu dolenni clir rhwng tudalennau Cymraeg a Saesneg, a defnyddio fideos neu graffeg yn Gymraeg – mae lle i wella.
- 5.4 Er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn ystod yr arolygiad, argymhellir y camau gweithredu canlynol:

Argymhelliad 1:

Rhaid i sefydliadau gynnal adolygiad cynhwysfawr o'u gwefannau, gan wirio pob elfen ryngweithiol (gan gynnwys botymau, hidlyddion a dewislenni) i sicrhau eu bod ar gael yn Gymraeg, a bod dolenni o dudalennau Cymraeg yn arwain yn gyson at dudalennau a gwybodaeth Gymraeg.

Argymhelliad 2:

Rhaid i sefydliadau sicrhau bod pob tudalen yn darparu'r un lefel o wybodaeth yn y ddwy iaith, gan gynnwys cynnwys mewn dolenni, dogfennau, hidlyddion a deunydd ategol.

Argymhelliad 3:

Rhaid i sefydliadau adolygu eu trefniadau ar gyfer cyhoeddi deunydd cyhoeddusrwydd ar wefannau, er mwyn sicrhau bod pob eitem yn cael ei chyhoeddi'n Gymraeg yn gydamserol â'r deunydd Saesneg, ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â gofynion safon 35.

Argymhelliad 4:

Dylai sefydliadau adolygu a chryfhau eu trefniadau ar gyfer goruchwyllo a chynnal cynnwys gwefannau, er mwyn bodloni eu hunain bod y trefniadau hynny'n ddigon cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r safonau perthnasol. Dylid sicrhau bod mecanweithiau clir ar waith i nodi unrhyw wallau neu wendidau, a bod trefniadau effeithiol mewn lle i'w cywiro'n brydlon pan gânt eu canfod.

Atodiadau

Data'r arolwg

	Tudalennau Sefydliadau Rheoliadau Rhif 5
Nifer y tudalennau a wiriwyd	90
Nifer a % y tudalennau oedd ar gael yn Gymraeg	88 (98%)
Nifer a % y tudalennau oedd ar gael yn rhannol yn Gymraeg	2 (2%)
Nifer a chanran y tudalennau oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	8 (9%)
Nifer a chanran y tudalennau perthnasol oedd yn cydymffurfio â safon 35	
Nifer a chanran y tudalennau perthnasol oedd yn cydymffurfio â safon 49	83 (92%)
Nifer a chanran y tudalennau perthnasol oedd yn cydymffurfio â safon 52	90 (100%)
Nifer a chanran y tudalennau perthnasol oedd yn cydymffurfio â safon 53	86 (95%)
Nifer a chanran y tudalennau perthnasol oedd yn cydymffurfio â safon 80	88 (98%)

Rhestr o'r sefydliadau fu'n rhan o'r arolwg

Fel rhan o'r gwaith gwirio, arolygwyd gwefannau'r sefydliadau canlynol:

- Swyddfa Ymddygiad Annibynnol yr Heddlu;
- Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig;
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Heddlu De Cymru;
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys;
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru;
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent;
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru;
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru; a
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru